



**SOCIAL SERVICES**

# Day Services for Adults



## Contents

	<b>Page</b>
What do we do?	3
What activities are available?	4
How do I access these services?	5
Day Service Centres	6
Paying for services	7
Comments, compliments and complaints	8

## **What do we do?**

We provide day services in a variety of settings for older people, older people with mental illness, people with learning disabilities and younger physically disabled people within the Vale of Glamorgan. They are offered to those aged 18 years and over and are designed to help you remain in your own home and to live independently, wherever possible.

The aims of the services that we provide are to:

- Promote independence, empowerment and personal development
- Enrich the individual's quality of life and reduce social isolation
- Provide intensive support to people with challenging behaviours and high support needs
- Provide therapeutic and social activities
- Provide respite for parents and carers at home
- Be a resource to clients, their families and to the wider community
- Allow access to rehabilitation and therapeutic services through partnership with the National Health Service Trusts
- Focus upon positive outcomes to meet individual needs
- Undertake Partnership Projects with voluntary agencies

Our staff receive training in areas that range from moving and handling to understanding disability. We aim to equip staff members with the particular skills required to meet the needs of individual service users, which will differ between Centres. Our staff are also undertaking NVQ qualifications, in order to meet the Care Council of Wales Standards of Practice.

We work in accordance with the Care Council for Wales Code of Practice for social care workers plus a Code of Conduct and Personal Care Guidelines for Day Services Staff.

## **What activities are available?**

Within all day services, we aim to offer activities that meet the needs and wishes of the service users. The range of services takes account of the age, physical health and ability of users.

Some of the Centre-based activities are currently:

- Keep Fit
- Arts & Crafts
- Music & Movement
- Memory Orientation
- Social Skills
- Self Advocacy
- Chiropody & Foot Care
- Hairdressing
- Sport
- Creative Music
- Dance
- Drama
- Yoga
- Swimming and
- Massage

Health Services staff attend at some Day Centres, to provide services such as Speech Therapy and Physiotherapy.

Some services provide support to enable access to community facilities, for example, leisure centres, shops, educational classes and the countryside.

**We also offer daytime provision in partnership with other agencies including:**

- Bryneithin Day Service for Older People with Mental Illness (Cross roads EMI)
- Luncheon Clubs in Penarth
- Small scale projects for people with a learning disability at the Amelia Trust, Track 2000, and Sorted in Penarth
- Adult Education Programmes and the Open Learning Centre
- Work experience
- The "Hub" with YMCA (from 2006)

**How do I access these services?**

A Contact Centre has been established to provide an efficient and accessible first point of contact for the public for all services to adults. The Centre provides Vale residents with information and advice on services and how to access them.

**Contact OneVale is open from:**

**8am - 6pm Monday to Friday**

**Telephone: 01446 700111**

**Textphone: C1V then your message to 60066**

**Email: [C1V@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:C1V@valeofglamorgan.gov.uk)**

After a request for a service is made, a community care assessment is undertaken with a Case Manager, who may be a Social Worker or a Community Nurse. As a result of this assessment, a plan of support is drawn up to meet an individual's needs.

Depending on the person's needs identified in the assessment, transport may be available to and from Centres and activities.

Older people do not require an assessment to attend a Centre if they do not require personal care and can attend unaided. They can use a Centre to drop in for a meal or to join in activities.

Further information is available from the Managers of each of the Centres.

## **Day Service Centres**

### **For People with Learning Disabilities**

- **Ty Jenner,**  
Gladstone Road, Barry. Tel: 01446 725100

We provide places for 66 people at 5 different sites throughout the Vale. Services are based on need, and further information can be obtained from the Community Support Team at Ty Jenner.

### **For Older People**

Our services are provided on 2 sites in Barry and Penarth:

- **Gardenhurst,**  
Holmsdale Place, Penarth Tel: 02920 711555

We provide a service 7 days a week for up to 24 people. The service is for both drop-in clients who would have no personal care support and for clients with support needs. Transport is available if you are referred via a social work team for the 7 days service. You can use the service at Gardenhurst if you require a service on a Saturday or a Sunday.

- **Rondel House,**  
Maes y Cwm Street, Barry      Tel: 01446 745922

We provide a day service for 5 days per week for up to 25 assessed people per day, as well as 60 people who attend as drop-ins for the luncheon club and activities. If you have high support needs, which include transport, access to this service will require a social work assessment.

### **For People with Physical Disability**

- **Hen Goleg Resource Centre,**  
College Fields Close, Barry      Tel: 01446 730402

We provide a service for up to 24 people per day. The service provides a wide range of therapeutic and social activities both in the Centre and within the community to help build confidence, and to improve independence, health and wellbeing. The Centre is also used by up to 200 people per week for the various club activities with local independent groups of disabled people.

## **Paying for Services**

The Vale of Glamorgan Council charges for services where appropriate. This is a result of the National Health Service and Community Care Act 1990.

There is no charge for an assessment or for giving you advice and information. You may have to pay for your service, depending on how much service you receive and how much money you have. Some people receive a free service, whilst others pay an assessed charge. You will be advised of the cost before deciding whether you wish to receive this service.

These charges do not cover the cost of activities (such as Bingo and Leisure Centre fees) and service users will have to pay for these as well as lunch and refreshments while at a Centre.

## **Comments, compliments and complaints**


We welcome all comments about our services, because we need information from people who use our services to help us improve them.

If Community Services arrange Day Services for you and you are not happy with the service, then you should initially discuss the matter with the Service Manager who will endeavour to resolve your complaint.

An explanatory leaflet called "How to make a Complaint about our services" explaining the full complaint process is available from any Community Services Centre. It can also be made available in Arabic, Bengali, Chinese, Gujarati, Punjabi, Somali and Urdu on request.

This information may also be provided, by request, in other languages, in larger print, tape or in simplified version. Please contact the Innovation and Information Team on tel: 01446 704814 to make arrangements.





**GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

# **Gwasanaethau Dydd i Oedolion**



## Mynegai

	<b>Tudalen</b>
Beth ydym yn ei wneud?	3
Pa weithgareddau sydd ar gael?	4
Sut allaf ddefnyddio'r gwasanaethau hyn?	5
Canolfannau Gwasanaeth Dydd	6
Talu am Wasanaethau	7
Sylwadau, canmoliaeth a chwynion	8

## **Beth ydym yn ei wneud?**

Rydym yn darparu gwasanaethau mewn amrywiaeth o leoliadau i bobl hyn, pobl hyn â salwch meddwl, pobl ag anableddau dysgu a phobl iau sydd ag anabledd corfforol ym Mro Morgannwg. Darperir y gwasanaethau i rai dros 18 oed, ac maent wedi'u dylunio i'ch helpu i aros yn eich cartref eich hunain, ac i fyw yn annibynnol, lle bynnag y bo modd.

Nod y gwasanaethau a ddarparwn yw:

- Hybu annibyniaeth, gallu a datblygiad personol
- Cyfoethogi ansawdd bywyd yr unigolyn a lleihau eithrio o'r gymdeithas
- Rhoi cefnogaeth ddwys i bobl ag ymddygiad heriol a lefel uchel o anghenion gofal
- Darparu gweithgareddau therapiwtig a chymdeithasol
- Rhoi seibiant i rieni a gofawyr gartref
- Bod yn adnodd i gleientiaid, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach
- Sicrhau mynediad at wasanaethau adferol a therapi drwy bartneriaeth gydag Ymddiriedolaethau y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Canolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol er mwyn bodloni anghenion yr unigolyn
- Cynnal Prosiectau Partneriaeth gydag asiantaethau gwirfoddol

Bydd ein staff yn derbyn hyfforddiant mewn meysydd sy'n amywio rhwng codi a symud yn gorfforol a deall anabledd. Ein nod yw rhoi'r sgiliau neilltuol i aelodau o staff, sydd eu hangen i fodloni anghenion defnyddwyr gwasanaeth unigol, a fydd yn amrywio rhwng y naill Ganolfan a'r llall. Mae ein staff hefyd yn gweithio tuag at gymwysterau NVQ, er mwyn bodloni Safonau Ymarfer Cyngor Gofal Cymru.

Rydym yn gweithio'n unol â Chôd Ymarfer Cyngor Gofal Cymru i weithwyr cymdeithasol, yn ogystal â Chôd Ymddygiad a Chanllawiau Gofal Personol i Staff Gwasanaethau Dydd.

## Pa weithgareddau sydd ar gael?

Ym mhob gwasanaeth dydd, ein nod yw darparu gweithgareddau sy'n bodloni anghenion a dymuniadau defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r ystod o wasanaethau a ddarperir yn seiliedig ar oedran, iechyd corfforol a gallu defnyddwyr.

Dyma rai o'r gweithgareddau a gynigir yn y canolfannau ar hyn o bryd:

- Cadw'n Heini
- Celf a Chrefft
- Cerddoriaeth a Symud
- Cyfeiriadedd y Cof
- Sgiliau Cymdeithasol
- Siarad ar eich rhan eich hun
- Chiropodi a Gofalu am Draed
- Trîn Gwallt
- Chwaraeon
- Cerddoriaeth Greadigol
- Dawns
- Drama
- Yoga
- Nofio a
- Thylino

Bydd staff o'r Gwasanaethau Iechyd yn mynychu rhai Canolfannau Dydd, er mwyn darparu gwasanaethau fel Therapi Lleferydd a Ffysiotherapi.

Bydd rhai gwasanaethau'n rhoi cefnogaeth i sicrhau mynediad at gyfleusterau cymunedol, er enghraifft, canolfannau hamdden, siopau, dosbarthiadau addysgol, cefn gwlad.

**Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r asiantaethau a ganlyn er mwyn darparu gwasanaethau dydd:**

- Gwasanaeth Dydd Bryneithin i Bobl Hyn â Salwch Meddwl (Croes Ffyrdd Henoed Eiddil eu Meddwl)
- Clybiau Cinio ym Mhenarth
- Prosiectau graddfa fechan i bobl ag anabledd dysgu yn yr Amelia Trust, Track 2000, a Sorted ym Mhenarth
- Rhaglen Addysg i Oedolion yn y Ganolfan Dysgu Agored
- Profiad Gwaith
- Yr "Hub" gyda'r YMCA (o 2006 ymlaen)

**Sut allaf ddefnyddio'r gwasanaethau hyn?**

Mae Canolfan Gyswilt a Gwybodaeth wedi cael ei sefydlu i ddarparu man cyswilt cyntaf effeithlon a hygyrch i'r cyhoedd at yr holl wasanaethau a ddarperir i oedolion. Mae'r Ganolfan yn darparu gwybodaeth a chyngor ar wasanaethau i drigolion y Fro, a sut i gael mynediad atynt.

**Holwch UnFro. Oriau agor:**

**Llun - Gwener 8am - 6pm**

**Ffôn: 01446 700111**  
**Ffôn Testun: C1V ac yna'r neges i 60066**  
**Minicom: C1V@bromorgannwg.gov.uk**

Wedi i chi wneud cais am wasanaeth, bydd Rheolwr/aig Achos - Gweithiwr/aig Cymdeithasol neu Nyrs Cymunedol o bosib, yn cynnal asesiad gofal yn y gymuned. O ganlyniad i'r asesiad hwn bydd cynllun cefnogi'n cael ei greu i fodloni anghenion yr unigolyn.

Yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn a ddynodir yn yr asesiad, mae'n bosibl y bydd cludiant yn cael ei ddarparu i Ganolfannau ac at Weithgareddau gwahanol.

Nid oes rhaid cynnal asesiad ar bobl hyn iddynt gael mynychu Canolfan, os nad oes angen gofal personol arnynt, a'u bod yn gallu mynychu'r ganolfan heb gymorth. Gallant ddefnyddio Canolfan drwy alw i mewn am bryd o fwyd neu ymuno â'r gweithgareddau.

Cysylltwch â Rheolwyr y Canolfannau am fwy o wybodaeth.

## **Canolfannau Gwasanaeth Dydd**

### **I bobl ag Anableddau Dysgu**

- **Ty Jenner,**  
Gladstone Road, Y Barri. Ffôn: 01446 725 100

Rydym yn darparu llefydd i 66 o bobl mewn 5 o ganolfannau gwahanol drwy'r Fro. Bydd y gwasanaethau a ddarperir yn seiliedig ar angen, a gellir cael gwybodaeth bellach gan y Tîm Cefnogi Cymunedol yn Nhy Jenner.

### **I Bobl Hyn**

Darperir ein gwasanaethau ar 2 safle yn y Barri a Phenarth:

- **Gardenhurst,**  
Holmsdale Place, Penarth Ffôn: 029 2071 1555

Rydym yn darparu gwasanaeth 7 diwrnod yr wythnos i hyd at 24 o bobl. Mae'r gwasanaeth yn un lle gall cleientiaid nad ydynt yn derbyn gofal personol alw i mewn, ac yn wasanaeth i gleientiaid ag anghenion cefnogi. Darperir cludiant os yw'r tîm gwaith cymdeithasol wedi eich cyfeirio i dderbyn y gwasanaeth 7 diwrnod. Gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth yn Gardenhurst os oes arnoch angen gwasanaeth ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul.

- **Rondel House,**  
Maes y Cwm Street, y Barri Ffôn: 01446 745922

Rydym yn darparu gwasanaeth dydd 5 diwrnod yr wythnos i hyd at 25 o bobl wedi'u hasesu bob dydd, yn ogystal â 60 o bobl sy'n galw i mewn i'r clwb cinio ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau . Os oes gennych lefel uchel o anghenion gofal, sy'n cynnwys cludiant, bydd angen cynnal asesiad gwaith cymdeithasol arnoch er mwyn i chi allu derbyn y gwasanaeth hwn.

### **I Bobl ag Anabledd Corfforol**

- **Canolfan Adnodd yr Hen Goleg,**  
College Fields Close, Y Barri Ffôn: 01446 730402

Rydym yn darparu gwasanaeth i hyd at 24 o bobl bob dydd. Mae'r gwasanaeth yn darparu ystod eang o weithgareddau therapiwtig a chymdeithasol yn y Ganolfan ac yn y gymuned er mwyn meithrin hyder, a gwella iechyd, lles a gallu'r unigolyn i fyw'n annibynnol. Bydd 200 o bobl hefyd yn defnyddio'r Ganolfan bob wythnos wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau clwb amrywiol a drefnir gan grwpiau annibynnol lleol o bobl anabl.

### **Talu am Wasanaethau**

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn codi tâl am wasanaethau lle bo'n briodol., a hynny oherwydd Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990.

Ni chodir tâl am asesiadau neu am gyngor neu gwybodaeth. Efallai y bydd angen i chi dalu am y gwasanaeth, yn dibynnu ar faint o wasanaeth yr ydych yn ei dderbyn, a faint o arian sydd gennych. Bydd rhai pobl yn derbyn gwasanaeth yn rhad ac am ddim, tra bo eraill yn talu swm penodol yn unol ag asesiad. Byddwch yn cael gwybod beth yw'r gost, cyn penderfynu a ydych am dderbyn y gwasanaeth ai peidio.

Nid yw'r taliadau hyn yn cynnwys cost y gweithgareddau (fel tâl mynediad Bingo a Chanolfan Hamdden). Bydd yn rhaid i ddefnyddwyr gwasanaeth dalu am y rhain, ac hefyd am ginio a lluniaeth yn ystod eu cyfnod yn y Ganolfan.

## **Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion**

Rydym yn croesawu pob sylw am ein gwasanaethau, gan fod arnom angen gwybodaeth gan bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, i'n helpu i'w gwella.

Os yw'r Gwasanaethau Cymunedol yn trefnu Gwasanaeth Dydd i Chi ac nad ydych yn fodlon â'r gwasanaeth, dylech drafod y mater i ddechrau gyda'r Rheolwr/aig Gwasanaeth a fydd yn gwneud pob ymdrech i ddatrys eich cwyn.

Gellir cael taflen eglurhaol sy'n dwyn y teitl "Sut i wneud cwyn ynglyn â'n gwasanaethau" sy'n egluro'r holl broses gwyno, o unrhyw Ganolfan Gwasanaethau Cymunedol. Ar gais, gallwch hefyd gael copi mewn Arabeg, Bengaleg, Tsieinëeg, Gwjarati, Pwnjabeg, Somalieg neu Wrddw.

Ar gais, gellir darparu'r wybodaeth hon hefyd mewn ieithoedd eraill, mewn print mwy, ar dâp sain neu ar ffurf symlach. Ffoniwch y Tîm Polisi a Gwybodaeth: 01446 704814 i drefnu hyn.

